

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 2il 2018 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Meilir Jones, Eifion Davies, Alwyn Jones, Maldwyn Jones, Rita Jones a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris, Gary Thomas, Gethin Morris, Dewi Pritchard, Iolo Evans, Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Mynwentydd.

i) Cerrig Beddi - cytunwyd i bennu dyddiad ar gyfer ail archwilio'r cerrig yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.

ii) Gwaith cynnal a chadw – cadarnhaodd y cler fod peth o'r gwaith wedi cael ei wneud yn barod a bwriedi'r gwneud y gweddill dros yr wythnosau nesaf.

iii) Torri coed mynwent Frongoch - adroddodd y cler eu bod wedi cysylltu â chontractwyr lleol er mwyn cael prisiau ar gyfer y gwaith ac y byddai wedi eu derbyn erbyn y cyfarfod ym mis Tachwedd.

b) Mabwysiadu rheolau'r mynwentydd.

Dosbarthwyd copïau enghreifftiol o reolau i'r mynwentydd a thrafodwyd newidiadau i greu draft cychwynol. Cytunodd y cler gael rhagor o wybodaeth ar rai materion a'i ddiweddarau ar gyfer trafodaeth bellach.

c) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Gwasanaeth allan o oriau - derbyniwyd cadarnhad y byddai Liz Saville Roberts, AS yn codi pryderon y Cyngor ynglŷn ar ddiffyg doctoriaid ar alw a'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan deulu lleol gyda'r BIPBC.

ii) Wal Pont Fawr Llandderfel - cafwyd cadarnhad y byddai'r gwaith atgyweirio yn cychwyn yn ystod mis Hydref pan fyddai contractwr Cyngor Gwynedd ar gael.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen waith yr adran Priffyrdd ar gyfer mis Hydref.

ii) Cais i ddsbarthu posteri i hyrwyddo'r 'Grantiau Cist Cymunedol'.

iii) Derbyniwyd gwybodaeth am eu harolwg cyhoeddus 'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?' Dosbarthwyd yr wybodaeth i'r cynghorwyr gwblhau'r arolwg. Nodwyd hefyd fod cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol y Berwyn ar y 9/10/18.

iv) Derbyniwyd llythyr yn gwahodd y Cyngor i dalu am lenwi'r biniau halen yn ystod gaeaf 2018/19. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd yn unfrydol i ymateb yn nol i gadarnhau nad oedd bwriad gan y Cyngor Cymuned i dalu na chymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth. Er nad oedd dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i gyflenwi'r gwasanaeth biniau halen, roedd dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i ofalu am briffyrdd y Sir, a thrwy hynny ofalu am y rhai sy'n defnyddio'r ffyrdd rheini yn ystod y gaeaf. Nid oedd yn deg fod trethdalwyr yn gorfod talu eilwaith i ofalu am y ffyrdd trwy godi'r Praesept a hwythau yn cael eu trethu eisoes am wasanaeth cynnal a chadw'r priffyrdd.

b) Un Llais Cymru

i) Adroddodd y cler fod Un Llais Cymru yn cynnal cwrs hyfforddiant 'Rheoli Gwybodaeth' yn Wrecsam ar y 11/10/18 ac y byddai o gymorth i sicrhau fod y Cyngor yn dilyn y camau priodol i ddiogelu data. Cytunwyd i'r cler fynychu'r cwrs a rhannu'r costau gyda Chyngor Llany Cil. Cytunwyd y gallai'r cler hawlio'r oriau ychwanegol a'r costau teithio.

ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 26/09/18.

c) Parc Cenedlaethol Eryri

i) Cynllun Datblygu Lleol Eryri – ymgynghoriad ar y materion a godwyd o'r archwiliad cyhoeddus.

ch) Post Brenhinol.

i) Cais i ddsbarthu posteri i hyrwyddo eu gwaith i godi ymwybyddiaeth o lythyrau sgâm.

d) Cylch Meithrin/Ti a Fi Maesywaen.

i) Derbyniwyd cais am lythyr o gefnogaeth i gynlluniau'r Cylch i ail leoli i adeilad newydd ar dir Ysgol Bro Tryweryn ac ehangu eu gwasanaethau gofal plant. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi eu cynllun i sicrhau dyfodol y gwasanaeth amhrisiadwy mae'r Cylch yn ei gynnig i deuluoedd yr ardal.

dd) Llywodraeth Cymru

i) Cais am wybodaeth i'w cynhorthwy gyda'u hymgynghoriad i 'Heolydd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru'. Cytunwyd i yrru gwybodaeth am y darn ffordd ger Ysgol Bro Tryweryn yn Frongoch.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-

NP5/63/236A – Adeiladu estyniad cefn a newidiadau mewnol. Craignant, Capel Celyn.

Cais cynllunio Pale Bach, Cefnddwysarn - Mynegwyd siom ym mhenderfyniad Cyngor Gwynedd i wrthod cais teulu lleol i adeiladu tŷ newydd ar y safle. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r ymgeiswyr i weld os oedd y Cyngor Cymuned yn gallu fod o gymorth.

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Gorff-Medi), TWE.

c) Hawlio ad-daliadau TAW.

Derbyniwyd cyfarwyddiadau am y drefn newydd ar-lein i adhawlio TAW.

ch) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd cais ariannol gan Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Cais am loches bws i Lanfor.

Derbyniwyd cais gan un o drigolion y pentref am loches bws gyferbyn a'r un presennol i'r rhai sydd yn dal y bws i gyfeiriad Bala/Dolgellau. Gan fod nifer o blant y pentref yn mynychu Coleg Meirion Dwyfor ac yn defnyddio'r bws i deithio yno teiml'r ei fod yn rhy beryglus iddynt gysgodi yn y lloches bresennol a cheisio croesi'r ffordd yn sydyn i dal y bws pan oedd agosáu. Cytunwyd yn unfrydol a'r sylwadau a gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda'r adrannau perthnasol ynglŷn â'r camau priodol i gymryd.

b) Crynodeb o'r cofnodion yn Saesneg yn y wasg leol.

Derbyniwyd cais gan un o'r trigolion lleol ynglŷn â'r posibilrwydd o gyhoeddi crynodeb o'r cofnodion yn Saesneg yn Y Cyfnod. Cytunwyd i edrych i mewn i'r posibilrwydd o wneud hyn.

c) Cais am arwydd i'r Fynwent Newydd yn Llandderfel.

Derbyniwyd cais gan un o'r trigolion lleol ynglŷn â chael arwydd wrth fynediad y fynwent. Cytunwyd yn unfrydol gyda'r cais a gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau.

ch) Cytunwyd i basio'r materion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol yn Cyngor Gwynedd:-

- i) Gwrych yn gordyfu i'r ffordd gyferbyn a Penisa'r Llan, Llanfor.
- ii) Camfa angen ei drwsio rhwng Crynierth Mawr a Erw Feurig, Cefnddwysarn.
- iii) Gan nad oedd y coed ochr draw i Cei Llyn Celyn wedi cael eu torri gofynnwyd i'r clerc godi'r mater unwaith eto.
- iv) Mwd yn cael ei olchi lawr i'r ffordd o'r trac odycha Tyddyn Sgubor, Glanrafon pan mae hi'n glawio.